Blwyddyn Newydd Tsieineaidd

Cysyniadau: **Parchu traddodiadau eraill, gwerthfawrogi.**

Amcan: **Dysgu'r plant i werthfawrogi credoau a thraddodiadau eraill.**

Cyfarpar: **Rhestru'r anifeiliaid ar y bwrdd gwyn.**

Cyflwyniad:

● Heddiw rydym am drafod blwyddyn newydd Tsieineaidd. Erbyn hyn mae caffi neu bryd parod Tsieineaidd ymhob ardal yng Nghymru.

Trafodaeth bellach:

● Yn ystod yr wythnos hon mae'n flwyddyn newydd Tsieineaidd. Mae'r blynyddoedd wedi'u rhannu'n gylch 12 mlynedd a'r rhain i gyd wedi'u henwi ar ôl anifeiliaid.

● Dyma'r anifeiliaid:

Llygoden Fawr, Ych, Teigr, Ysgyfarnog, Draig, Neidr, Ceffyl, Maharen, Mwnci, Ceiliog, Ci, Mochyn.

Stori:

Dowch i ni wrando ar chwedl sy'n disgrifio sut y cafodd y blynyddoedd eu henwi.

Flynyddoedd maith yn ôl, cyn i'r blynyddoedd gael eu henwau, mi fuo'r anifeiliaid yn dadlau ymhlith ei gilydd pa un ohonyn nhw oedd y pwysicaf.

'Fi ydi'r pwysicaf,' meddai'r ceffyl, 'y fi ydi'r anifail cryfaf o ddigon.'

'Na,' meddai'r ddraig, 'mi ydw i'n anifail mawr a hefyd mi fuaswn i yn gallu'ch lladd chi i gyd.'

'O, na'n wir,' meddai'r neidr, 'mi fedra i eich gwenwyno i gyd.

Felly fi ydi'r anifail pwysicaf ohonoch i gyd.'

Ac felly roedd hi bob dydd. Dadlau a dadlau a dadlau.

Er mwyn setlo'r mater unwaith ac am byth dyma'r duwiau yn dweud wrth yr anifeiliaid am redeg tuag at yr afon lydan ar lawr y dyffryn. A'r dasg oedd nofio o un ochr i'r llall. Dyma nhw'n dechrau nofio ar draws yr afon lydan gyda'r anifeiliaid mwyaf a chryfaf yn sicr eu bod nhw yn mynd i ennill y ras nofio.

Er bod y llygoden fawr yn nofiwr arbennig iawn, sylweddolodd yn fuan ei bod yn rhy fychan i gystadlu yn erbyn y creaduriaid mawr ac felly y byddai'n rhaid iddi ddefnyddio ei hymennydd yn ogystal â'i chyhyrau. Erbyn hyn roedd yr ych ar y blaen a chydag un llam ymlaen dyma'r llygoden fawr yn cydio yng nghynffon yr ych â'i dannedd miniog. Dyma hi'n crafangu ar ei gefn a dyna lle roedd hi'n gorffwyso'n braf ar gefn yr ych yng nghanol y dŵr byrlymus. Fel roedd yr ych yn cyrraedd y lan yr ochr draw dyma'r llygoden fawr yn neidio oddi ar ben yr ych a llamu drosodd i'r ochr draw. Roedd yr ych wedi'i syfrdanu o weld creadur mor fach wedi cael y blaen arno. Doedd ganddo ddim syniad sut ar wyneb y ddaear oedd hyn wedi digwydd. Felly, y llygoden fawr enillodd y ras nofio a'r ych yn ail. Ond nid dyna ddiwedd y stori gan fod deg o anifeiliaid eraill yn bustachu i gyrraedd y lan yr ochr draw. Y teigr oedd y trydydd i gyrraedd a'r ysgyfarnog yn bedwerydd. Cyrhaeddodd y ddraig yn bumed ychydig o eiliadau cyn i'r neidr gyrraedd. Y seithfed i gyrraedd oedd y ceffyl, yna'r maharen ac wedyn y mwnci. Y degfed i gyrraedd oedd y ceiliog a dechreuodd glochdar gyda gollyngdod ei fod wedi cyrraedd yr ochr draw yn un darn. Unfed ar ddeg oedd y ci pan ddechreuodd ysgwyd ei got nes roedd pawb yn wlyb domen unwaith yn rhagor. Yr olaf i gyrraedd, ymhell bell ar ôl y gweddill, oedd y mochyn. Teimlai'n siomedig iawn ond eto'n ddigon hapus ei fod wedi llwyddo i orffen y ras.

Ac o'r diwrnod hwnnw, amser maith yn ôl, mae cylch y blynyddoedd wedi'u henwi yn y drefn y gorffennodd yr anifeiliaid y ras.

Maen nhw'n dweud y byddwch chi'n rhannu rhai o nodweddion yr anifail yn y flwyddyn y cawsoch eich geni.

2008	Y Llygoden Fawr: Gweithio'n galed yn ystod y nos ond yn mwynhau bywyd yn ystod y dydd.
2009	Yr Ych: Cryf a ffyddlon. Mwynhau bywyd.
2010	Teigr: Deallus. Gwneud yn dda yn ystod ei fywyd.
2011	Ysgyfarnog: Hapus a llwyddiannus. Cael llawer o blant ar ôl i chi dyfu fyny.
2012	Draig: Mwynhau bywyd hawdd.
2013	Neidr: Sydyn, doeth ac yn barod i droi ei law at unrhyw waith.
2014	Ceffyl: Cryf a chyfeillgar.
2015	Maharen: Arweinydd da. Parod i helpu eraill.
2016	Mwnci: Ysgafndroed. Swnllyd iawn ar brydiau.
2017	Ceiliog: Balch, gweithgar a boregodwr.
2018	Ci: Ffrind da sy'n dysgu pethau newydd yn gyflym.
2019	Mochyn: Deallus, rhiant da ond yn gwylltio'n sydyn.

● Cyfle i ofyn i rai o'r plant ym mha flwyddyn y'u ganed a thrafod eu nodweddion.

Emyn: Duw wnaeth y creaduriaid: Clap a Chân i Dduw 60

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch am y cyfle i wrando ar storïau o wledydd eraill. O Dduw, wnei di'n helpu ni i ddeall hanesion a chwedlau a gwerthfawrogi sut mae pobl eraill yn byw? Diolch. Amen.